

MONITRO CYNNYDD ACADEMAIDD: LLINELL AMSER

Paratowyd y llinell amser hon er mwyn atgoffa’r Cyfadrannau o’r dyddiadau/cyfnodau allweddol ar gyfer monitro cynnydd academaidd yn ystod y flwyddyn, ac yn benodol y dyddiadau cau ar gyfer cyflwyno argymhellion diarddel i’r Gofrestrfa Academaidd. Dylid ei defnyddio gyda’r dogfennau canlynol:

- Y Rheoliad ynghylch Cynnydd Academaidd:
<https://www.aber.ac.uk/cy/regulations/academic-progress/>
- Adran 3.4 y Llawlyfr Ansawdd Academaidd
<https://www.aber.ac.uk/cy/academic-registry/handbook/taught-schemes/>
- Siart Ilif a Thempledi ar gyfer Llythyrau (gweler adran 3.13 y Llawlyfr Ansawdd)

LLINELL AMSER	
TYMOR 1	
Wythnosau cyntaf y dysgu	Y Cyfadrannau i ganolbwyntio ar fyfyrwyr: <ul style="list-style-type: none"> • Sy’n ailadrodd y flwyddyn am resymau academaidd • Sydd eisoes wedi mynychu cyfweiliad a derbyn rhybudd ar sail cynnydd anfoddfaol yn ystod y sesiwn academaidd
Diwrnod gwaith olaf mis Tachwedd	Y dyddiad olaf y gall y Cyfadrannau gyflwyno argymhellion diarddel i’r Gofrestrfa Academaidd (qaestaff@aber.ac.uk) er mwyn eu cadarnhau cyn y Gofrestrfa Academaidd yn eu hystyried erbyn diwedd Tachwedd, ac os caiff myfyrwyr eu diarddel dylent gael 10 diwrnod gwaith i gyflwyno apêl.
TYMOR 2	
Cyfnod arholiadau Semester 1	Ni fydd y Gofrestrfa Academaidd yn anfon llythyrau diarddel yn ystod y cyfnod arholiadau. Dylai’r Cyfadrannau drafod unrhyw achosion posibl â Chofrestrydd y Gyfadrannau yn ystod y cyfnod hwn, a chyflwyno argymhellion i’w hystyried ar ddechrau cyfnod dysgu Semester 2. Mewn rhai achosion mae’n bosibl y byddai’n briodol gohirio penderfyniad i gadarnhau diarddel hyd nes bod canlyniadau Semester 1 wedi eu cadarnhau.
Pythefnos olaf tymor 2	Y Cyfadrannau i adolygu achosion, ac i baratoi argymhellion diarddel os yw hynny’n briodol. Os nad oes modd cyhoeddi rhybuddion a

	chyflwyno'r argymhellion diarddel erbyn y dyddiad cau ar ddechrau Tymor 3, bydd angen mynnu bod myfyrwyr yn mynychu cyfarfod gyda Dirprwy Is-Ganghellor y Gyfadran/Deon Cysylltiol ar ddechrau Tymor 3.
TYMOR 3	
Dechrau tymor 3	Ni fydd y Gofrestrfa Academaidd yn anfon llythyrau diarddel yn ystod y cyfnod arholiadau. Diwrnod cyntaf wythnos 9 y dysgu yw'r diwrnod olaf ar gyfer cyflwyno argymhelliad i ddiarddel trwy'r Gofrestrfa Academaidd.
Wythnos olaf y dysgu	Dirprwy Is-Ganghellor y Gyfadran/Deon Cysylltiol i gynnal cyfarfodydd gyda myfyrwyr ac anfon rhybuddion (TEMPLED F) y gallai Bwrdd Arholi'r Senedd ystyried argymhelliad i ddiarddel. Os nad yw'r myfyriwr yn mynychu'r cyfarfod, defnyddier TEMPLED G – noder nad yw hwn yn caniatáu i fyfyrwyr gynnig esboniad ac aildrefnu'r cyfarfod.
Dyddiadau cau Mehefin ar gyfer cyflwyno cofnodion/amgylchiadau arbennig i Fwrdd Arholi'r Senedd	<ul style="list-style-type: none"> Dylid cyflwyno argymhellion (Templed E) diarddel i gaestaff@aber.ac.uk Dylid nodi achosion hefyd yng nghofnodion byrddau arholi'r adrannau er mwyn gallu croesgyfeirio
Byrddau Arholi'r Senedd yn mis Mehefin	Bydd Bwrdd Arholi'r Senedd yn cadarnhau diarddel myfyrwyr, a bydd y Gofrestrfa Academaidd yn anfon llythyrau diarddel yn dilyn y Byrddau.

Fersiwn:	1.4	Dyddiad Cyhoeddi	Medi 2022
Rheswm dros ddiweddarau:	Academic Registry email address updated		
Cymeradwywyd:	Y Gofrestrfa Academaidd	Dyddiad Gweithredol	Medi 2022
Cyswllt:	Kim Bradick, Dirprwy Gofrestrydd		